1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# PROM



## *100 mlynedd*

**GWLEIDYDDIAETH RYNGWLADOL**

## *Brwydro Malaria*

cyfuno Daearyddiaeth a Bioleg

## *Sioned Wiliam*

Sgwrsio â'r gyn-fyfyrwraig

## *Apêl*

**YR HEN GOLEG**

Cyfle i fod yn rhan o'n gweledigaeth

## PROM AR NEWYDD WEDD

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r nifer o gyn-fyfyrwyr a gwblhaodd yr holiadur y llynedd. Roedd yn wych clywed eich awgrymiadau a'ch barn ar PROM a'i gynnwys. Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y rhifyn newydd hwn gyda'i gymysgedd o newyddion a gwybodaeth o Aber, sydd yn ategol i'n e-gylchlythyr misol poblogaidd.

Mae'n bleser arbennig anfon PROM atoch yn gylchgrawn dwyieithog i adlewyrchu natur cymuned ddwyieithog Aber ac un o'r nifer o resymau arbennig y mae miloedd o gyn-fyfyrwyr ledled y byd yn dweud mai Aber yw 'gartre'.

Fel erioed, edrychwn ymlaen at glywed eich adborth a'ch awgrymiadau.

**Dylan Jones**
dej20@aber.ac.uk

## CADWCH MEWN CYSYLLTIAD

@aber_alumni
Aberystwyth Alumni | Cyn-fyfyrwyr Aber
+44 (0) 1970 62 1568
alumni@aber.ac.uk
aber.ac.uk/alumni

Cofiwch y gallwch ddiweddaru eich manylion cysylltu a'ch dewisiadau drwy fynd i alumni.aber.ac.uk

## DIWEDDARU'R POLISI PREIFATRWYDD

Mae ein datganiad preifatrwydd wedi'i ddiweddaru ac mae'n rhoi gwybodaeth ychwanegol am y data a gedwir gennym amdanoch chi, sut y caiff ei gasglu a'i brosesu, yr hyn a wnawn gyda'r data hwnnw, a'ch hawliau o dan y GDPR. Gallwch ddarllen y datganiad preifatrwydd newydd yn llawn yma: www.aber.ac.uk/cy/development/data-protection



# Croeso

Croeso i'r rhifyn newydd hwn o PROM lle rydym yn rhannu straeon a llwyddiannau diweddaraf Aber.

Rwy'n sicr eich bod chi, fel finnau, wedi bod yn falch o ddarllen bod safonau addysgu uchel y Brifysgol wedi eu cydnabod eto yn 2018. Dyfarnwyd i ni safon Aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a chawsom ein henwi'n Brifysgol y Flwyddyn am Ansawdd Addysgu yng nghanllaw prifysgolion da *The Times / Sunday Times* am yr ail flwyddyn yn olynol. Ar ben hyn, roedd lefelau bodlonrwydd ein myfyrwyr y llynedd ymhlith yr uchaf ym Mhrydain, felly mae llawer i adeiladu arno yn 2019.

Yn dilyn dathliadau Daearyddiaeth a'r Gwyddorau Daear, mae eleni yn nodi canrif o fridio planhigion yn Aberystwyth yn ogystal â chanmlwyddiant adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol gynta'r byd (tud. 6-7). Mae gwaith ein hacademyddion yn yr adrannau hyn ac adrannau eraill yn parhau i gael effaith gwirioneddol yng Nghymru a'r byd ehangach.


Mae gwyddonwyr fel Dr Andy Hardy (tud. 10-11) yn gwneud cynnydd pellach yn y frwydr yn erbyn rhai o afiechydon mwyaf marwol y byd; mae ein hymchwilwyr yn helpu i lywio polisïau yng Nghymru a gwledydd eraill sy'n hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol, ac mae ein gwaith ar y newid yn yr hinsawdd a diogelwch bwyd yn bwysicach nag erioed.

Wrth nesáu at ddathliadau ein 150 pen blwydd, mae tri phrif brosiect cyfalaf y Brifysgol yn dod yn eu blaen yn dda, y Campws Arloesi a Menter, Neuadd Pantycelyn, a'r Hen Goleg. Ar dud. 4-5 fe welwch y cynlluniau i adnewyddu a thrawsnewid yr Hen Goleg ac rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni i godi arian ar gyfer yr adeilad rhestredig Gradd 1 unigryw hwn.

Ynghyd â Chronfa Dreftadaeth y Loteri, ymddiriedolaethau elusennol a chyllid gan y llywodraeth, rydym nawr angen eich cymorth chithau. Bydd ein cynigion uchelgeisiol yn diogelu dyfodol yr Hen Goleg sydd wedi sefyll yn falch ar y prom, yn symbol o bwysigrwydd addysg uwch i bawb, ers 1872, a gobeithiaf yr ymunwch â mi i gefnogi'r apêl hollbwysig hon.

**Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor**


4


6


10


12


18


24

## CYNNWYS


2 Newyddion y Brifysgol
4 Apêl yr Hen Goleg
6 100 mlynedd Gwleidyddiaeth Ryngwladol
8 Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr
9 Aber Dramor
10 Y Frwydr yn erbyn Malaria
12 Cyfweliad â Sioned Wiliam
16 Rhoddion i Aber
18 Yr Adran Gyfrifiadureg
20 Graddio, Dyfarniadau a Phenodiadau
24 RAG yn Aber



PROM 27 | Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth

**Cyhoeddwyd gan:** Prifysgol Aberystwyth
**Dyluniwyd gan:** Y Stiwdio Ddylunio, Prifysgol Aberystwyth
**Argraffwyd gan:** Taylor Bloxham Ltd
**Ar y clawr:** Yr Hen Goleg



Barn yr awduron unigol a fynegir yn PROM ac nid ydynt yn cynrychioli'r Brifysgol heblaw pan nodir hynny. Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd y deunydd a gyhoeddir, nid yw'r cyhoeddwr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am honiadau a wneir gan gyfranwyr.

## GWOBRAU AC ACOLÂDAU

**Prifysgol y Flwyddyn ar gyfer Ansawdd y Dysgu**

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ei henwi yn Brifysgol y Flwyddyn ar gyfer Ansawdd y Dysgu yn *The Times and Sunday Times Good University Guide 2019* am yr ail flwyddyn yn olynol.

**Gwobr Aur FfRhA**

Enillodd y Brifysgol Aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr (FfRhA) 2018 ym mis Mehefin am ddarparu addysgu, dysgu a chanlyniadau sy'n gyson ragorol i'w myfyrwyr, ac sydd o'r safon uchaf a geir drwy wledydd Prydain.

**Ar y brig am fodlonrwydd myfyrwyr**

Aberystwyth oedd y brifysgol orau yng Nghymru am fodlonrwydd cyffredinol y myfyrwyr yn ôl Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) 2018, gan berfformio'n well na'r sector yn y DU ac yng Nghymru ym mhob un o naw maes yr Arolwg.

**Dringwr uchaf**

Prifysgol Aberystwyth a ddringodd uchaf yng nghanllaw prifysgolion 2019 *The Guardian* wrth iddi ddringo 36 safle i'r 50 uchaf, a'r ail safle yng Nghymru. Yn y tabl diweddaraf, mae Aberystwyth yn 2il yn y DU am fodlonrwydd myfyrwyr, 3ydd yn y DU am fodlonrwydd gydag adborth, a 6ed yn y DU am fodlonrwydd gyda'r addysgu.

**100 Uchaf Stonewall**

Rhestrodd y Workplace Equality Index, a gyhoeddir gan Stonewall, Brifysgol Aberystwyth ymysg 100 cyflogwr gorau'r DU am gynhwysoldeb yn y gweithle; y 9fed cyflogwr gorau yng Nghymru. Yn ogystal, Aberystwyth yw'r 8fed brifysgol orau yn y DU, a'r 3edd yng Nghymru.

**Gwobrau What Uni Choice Awards 2018**

Enillodd Prifysgol Aberystwyth y categori Uwchraddedig yng ngwobrau What Uni Student Choice Awards 2018, ac am yr ail flwyddyn yn olynol, enillodd y wobr arian yn y categori Rhyngwladol.

## Llyfrgell Hugh Owen ar ei newydd wedd

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi buddsoddi dros £1 miliwn wrth adnewyddu Llawr D llyfrgell eiconig Hugh Owen, gan drawsffurfio'r gofod i ddiwallu anghenion myfyrwyr yr 21ain ganrif.

Bellach gall myfyrwyr sy'n defnyddio Lefel D y llyfrgell ddefnyddio dwy ystafell astudio grŵp newydd, amrywiaeth o leoedd astudio gyda mynediad i bŵer a WiFi, mwy o seddi, peiriannau lluniaeth a deunydd ysgrifennu, a thoiledau ychwanegol niwtral o ran rhywedd. Mae prif fynedfa'r llyfrgell hefyd wedi symud i'r piazza, cartref Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth ac Undeb y Myfyrwyr.



## Cyfrol newydd yn esbonio arwyddocâd lle ym marddoniaeth Keats

Mae llyfr newydd a olygwyd gan Richard Marggraf, Athro Llenyddiaeth Ramantaidd yn yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, yn edrych ar leoliadau arwyddocaol ledled Prydain a siapiodd farddoniaeth y bardd Rhamantaidd o Loegr, John Keats.

Yn ei gyflwyniad i'r llyfr, *Keats's Places*, mae'r Athro Marggraf Turley yn herio'r farn gyffredin bod natur ymddangosiadol ddigyfnewid barddoniaeth Keats yn awgrymu nad yw ynghlwm wrth leoedd penodol, gan ddadlau bod lleoliad a lle wedi llywio a siapio barddoniaeth Keats mewn gwirionedd.

Mae'r gyfrol yn cynnwys casgliad o draethodau gan ysgolheigion Keats o fri rhyngwladol, sy'n trafod detholiad o leoedd a chwaraeodd ran ym mywyd creadigol Keats gan helpu i lunio ei hunaniaeth fel awdur.

Mae'r lleoliadau a drafodir yn amrywio o standiau clawstroffobig llawdrinfa Ysbyty Guy's i'r tu mewn i goets bost ddigysur Southampton; o greigiau'r Ucheldir i Hampstead Heath; o ganol dinasoedd poblog i lonydd maestrefol deiliog.

Mae'r llyfr hefyd yn edrych ar y berthynas rhwng lleoedd real a dychmygol Keats.





Mae Mohamed Cheggaf, sy'n gweithio fel porthor yn y Brifysgol, ymhlith y rhai sy'n elwa o'r gyfradd uwch.

## Achrediad Cyflog Byw Go Iawn i'r Brifysgol

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi'i hachredu'n swyddogol fel cyflogwr Cyflog Byw Go Iawn. Mae Prifysgol Aberystwyth yn un o 174 o gyflogwyr yng Nghymru sydd wedi gwneud penderfyniad gwirfoddol i dalu'r Cyflog Byw Go Iawn.

Dywedodd yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth: "Prifysgol Aberystwyth yw un o gyflogwyr mwyaf Canolbarth Cymru, ac mae ymroddiad ac ymrwymiad ein staff yn ategu ein llwyddiant fel sefydliad. Mae ein penderfyniad i fabwysiadu'r Cyflog Byw Go Iawn yn adlewyrchu ein gwerthoedd a'n hegwyddorion fel cyflogwr moesegol.




*Katie Miles a'r Athro Bryn Hubbard yn chwifio baner Aber ar safle rhif tri y tyllu ar rewlif Khumbu wrth droed Everest yn ystod taith 2017.*

## Tymheredd iâ yn gynhesach na'r disgwyl ar rewlif ucha'r byd

Mae rhewlifegwyr o Aberystwyth yn rhan o brosiect sydd wedi dangos bod tymheredd yr iâ o fewn rhewlif ucha'r byd ar lethrau Mynydd Everest yn gynhesach na'r disgwyl.

Fe deithiodd yr Athro Bryn Hubbard, daliwr medal y pegynau, a'r ymchwilydd uwchraddedig, Katie Miles o'r Adran Ddaearyddiaeth a Gwyddorau Daear, i Rewlif Khumbu yn Nepal yn 2017 a 2018 fel rhan o brosiect ymchwil EverDrill.

Tra'n gweithio ar uchder o hyd at 5,000 metr, y tîm hwn oedd y cyntaf i dyllu'n llwyddiannus i waelod y rhewlif gan ddefnyddio uned golchi ceir wedi'i haddasu'n arbennig. Nhw hefyd oedd y cyntaf i gofnodi tymheredd y rhewlif islaw'r haenen sydd yn cael ei heffeithio gan y tymhorau.

Dangosodd y mesuriadau isafswm tymheredd iâ o -3.3°C yn unig, gyda hyd yn oed yr iâ oeraf 2°C yn gynhesach na thymheredd cymedrig blynyddol yr aer.

Cydweithwyr eraill ar brosiect EverDrill yw Dr Duncan Quincey (arweinydd y prosiect) a Dr Evan Miles o Brifysgol Leeds, a Dr Ann Rowan o Brifysgol Sheffield. Mae Dr Quincey a Dr Rowan ill dau yn gyn-fyfyrwyr o Brifysgol Aberystwyth..




## Gweiriau a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn un o ddarganfyddiadau gorau'r DU

Ystyrir bod gwaith arloesol ym Mhrifysgol Aberystwyth, a arweiniodd at gynhyrchu amrywiaethau newydd o weiriau uchel eu siwgr, yn un o'r 100 darganfyddiad gorau yn y DU.

Mae'r gwaith yn cael sylw yn rhestr UK's Best Breakthroughs: *100+ Ways Universities Have Improved Everyday Life*, a baratowyd gan 'Universities UK' (sef y grŵp ambarél i holl brifysgolion Prydain), i gydnabod ei fanteision economaidd ac amgylcheddol trawsffurfiol.

Mae'r gwaith o ddatblygu Gweiriau Uchel eu Siwgr (AberHSG) i fwydo da byw yn cael ei wneud yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), a fydd yn dathlu 100 mlynedd o fridio planhigion yn 2019.

Mae'r gweiriau hyn, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad agos â Germinal, partner diwydiant, yn lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr o dda byw a chynyddu'r cnwd o gynnyrch da byw, sydd felly'n helpu i fwydo boblogaeth y byd yn fwy cynaliadwy.

# Apêl yr Hen Goleg:
## *cyfle i fod yn rhan o'n gweledigaeth*



Jim O'Rourke,
Rheolwr Prosiect yr Hen Goleg

### Y daith hyd yma

Ar ôl astudio Daearyddiaeth yn Aberystwyth a threulio blwyddyn yn llywydd y myfyrwyr yn 1978-79, cefais yrfa mewn gwaith ieuenctid a rheoli prosiectau. Felly i mi, a minnau wedi symud yn ôl i fyw i Aber yn 1997, mae'n hynod o gyffrous cael y cyfle i reoli'r prosiect adnewyddu hynod o arwyddocaol hwn a chynorthwyo i wireddu uchelgais y Brifysgol i sicrhau bywyd newydd i'r Hen Goleg mewn da bryd ar gyfer ein can mlwyddiant a hanner yn 2022/23.

A minnau'n gyn-fyfyriwr, bu'n hynod o gynhyrchiol a buddiol cael ymgynghori â chynifer o gyn-fyfyrwyr ar y weledigaeth ar gyfer yr Hen Goleg a sut y gallwn ddatblygu'r adeilad Gothig Gradd 1 unigryw hwn, sy'n llawn siapiau a chilfachau hynod ac a fu'n gefnlen i gynifer o storïau a thrawsnewidiadau ym mywydau pobl ifanc ers bron i 150 o flynyddoedd. A minnau wedi gweithio gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri ar brosiectau blaenorol ym maes treftadaeth, rwy'n ddiolchgar i'r Gronfa am ariannu ein cam Datblygu ac am wahodd cais gennym ar gyfer ein cam Cyflawni yn 2019-2023, ac yn ddiolchgar hefyd am eu cyngor arbenigol. Cawsom gyngor craff hefyd gan Ganolfan y Celfyddydau yma yn y Brifysgol, yn ogystal â chan ein prif bartneriaid ar y prosiect – Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Gŵyl y Gelli a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Ar ôl ymuno â'r prosiect ym mis Rhagfyr 2017, es ati i weithio ar bedair ystyriaeth allweddol, sef sut i:

- ailddatblygu'r adeilad yng nghyd-destun disgwyliadau'r oes sydd ohoni ynghylch mynediad a chyfleusterau i fyfyrwyr a'n cymuned, gan barchu'r dreftadaeth gyfoethog ar yr un pryd
- datrys y broblem parcio yn y rhan hon o'r dref
- darparu ffrydiau refeniw parhaus a fydd yn galluogi'r adeilad i fod yn hyfyw a chynaliadwy fel ased gwerthfawr i'r Brifysgol
- dylunio ateb i gael drws ffrynt deniadol ar y promenâd.

### Ein gweledigaeth a'n cynlluniau

O ganlyniad i'r syniadau hyn a chyngor pellach, yr wyf yn gwbl hyderus y gall ein gweledigaeth ar gyfer canolfan ddysgu, diwylliant a menter yn yr Hen Goleg ddarparu cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer ein myfyrwyr a'n staff, yn ogystal ag i'n cymuned leol ac i 200,000 o ymwelwyr o bedwar ban byd, gan gynnwys ein cyn-fyfyrwyr.

Bydd ein holl ymwelwyr yn gallu mwynhau ystod eang o weithgareddau, digwyddiadau a gwyliau mewn 143 o ystafelloedd ar saith llawr, mewn ffyrdd a fydd yn ennyn eu diddordeb mewn dysgu ac yn hyrwyddo arwyddocâd yr Hen Goleg o safbwynt hanes addysg yng Nghymru.

Ein pedair ardal ryng-gysylltiedig yw Diwylliant, y Gymuned ac Ymwelwyr; Cyfarfodydd a Deialog; Byd o Wybodaeth, a Menter ac Arloesi. Bydd Orielau Celf, Canolfan Wyddoniaeth, mannau arddangos a chasgliadau, a dwy theatr ddarlithio bwrpasol yn adrodd hanes datblygiad y Brifysgol dros 150 o flynyddoedd, gan roi llwyfan i'w hymchwil arloesol dros y degawdau mewn ystod o adrannau a phynciau. Mae darparu gofod ar gyfer deialog a thrafod yn rhan ganolog o'n gweledigaeth, a chanolbwynt hynny fydd Canolfan Ddeialog, a fydd yn cynnig lle i 60 o bobl.



Mae ein cynlluniau a'n dyluniadau ar gael ar-lein ar:
www.aber.ac.uk/cy/oldcollege

Mae dros hanner ein myfyrwyr yn byw yn y dref, dafliad carreg o'r Hen Goleg, ac maent wedi cael eu cynnwys wrth lunio'r cynlluniau a'r dyluniadau hyn. Byddant yn elwa yn sgil y mannau newydd i ddysgu, ymchwilio, astudio 24 awr y dydd a chyfarfod. Ceir gofod hefyd ar gyfer cymdeithasau, gweithgareddau a dosbarthiadau dysgu gydol oes, gan gynnwys ieithoedd, ysgrifennu creadigol, celf a drama. Bydd cerddoriaeth yn parhau i fod yn nodwedd bwysig ar yr Hen Goleg, gyda mannau ymarfer newydd ar gyfer cerddorfeydd, corau a bandiau'r Brifysgol a rhai lleol, yn ogystal ag ar gyfer perfformiadau. Gwyddom oll fod pontio'r dref a'r brifysgol yn rhan ganolog o'r profiad unigryw a gwerth chweil y mae Aberystwyth yn ei gynnig i fyfyrwyr. Mae ein myfyrwyr felly'n hynod o frwd ynghylch y cyfle i agor yr Hen Goleg yn llawn i'r gymuned a'r cyhoedd, gyda chyfleusterau lletygarwch a rennir gan bawb. Bydd myfyrwyr hefyd yn elwa yn sgil y cyfle a gynigir gan 12 o Unedau Mentrau Busnes newydd ar gyfer cwmnïau newydd a rhai sy'n deillio o'r Brifysgol ym maes y diwydiant creadigol, a 5 gofod ar gyfer Stiwdios Arlunio y bwriedir eu cynnig yn y tŵr.

Datblygiad o bwys o ran y dylunio oedd cynnwys y ddau dŷ Sioraidd sydd rhwng yr Hen Goleg a'r Cambria (y Coleg Diwinyddol gynt). Mae'r tai rhestredig Gradd 2 hyn, a adeiladwyd yn 1810, yn eiddo i'r Brifysgol ac mewn gwirionedd yn hŷn na'r Hen Goleg. Mae ein dyluniad newydd yn cadw eu nodweddion ar y tu blaen a'r tu mewn ac yn cynnwys mynedfa wydr newydd i dderbynfa a chyntedd ac atriwm pedwar llawr y tu ôl i'r tai. Mae hyn yn gwella hygyrchedd yn sylweddol, gan ganiatáu mynediad lifft a grisiau i holl loriau'r Hen Goleg. Mae hefyd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer arlwyo a lletygarwch, gan gynnwys caffi-bistro ar y llawr gwaelod, bar fydd â golygfeydd o'r môr ar y llawr cyntaf, ac ystafell drawiadol ar gyfer cynnal digwyddiadau uwchlaw'r atriwm, gyda golygfeydd panoramig o'r môr. Yma bydd lle i 120 o bobl eistedd i fwyta, neu le i 200 mewn cynhadledd neu barti. Ynghyd â 32 ystafell wely 4*, bydd yr arlwyo a'r llety yn sylfaen gref i'n cynllun busnes.

Rydym wedi gweithio gyda'n Hawdurdod Lleol, Cyngor y Dref a busnesau lleol i ddatblygu ein cynigion, ac rydym yn cyflwyno ceisiadau am ganiatâd cynllunio ym mis Chwefror 2019. Edrychwn ymlaen at weithio rhagor â hwy i ddatblygu'r Hen Goleg yn gatalydd o bwys ar gyfer adfywio a thwristiaeth, gyda'r gobaith o greu 40 o swyddi newydd a datblygu sgiliau trwy gyfrwng 400 o gyfleoedd i'n myfyrwyr a'r gymuned wirfoddoli.





APÊL YR HEN GOLEG

Cyfanswm cost y trawsnewidiad hwn fydd £26.2 miliwn. Fel y byddwch wedi darllen yn llythyr yr Is-Ganghellor, mae angen inni'n awr godi'r arian cyfatebol sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ein gweledigaeth a chynorthwyo i ddatgloi'r grant llawn o £10.5 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn hydref 2019. Mae cefnogaeth cyn-fyfyrwyr yn hanfodol ac rwy'n gobeithio y byddwch yn ymuno â mi i gyfrannu at yr apêl www.aber.ac.uk/apel

Bydd pob rhodd yn bwysig ac yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr.

*Diolch ichi*

# Dathlu canmlwyddiant

## *Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol*

## hynaf y byd

Mae blwyddyn academaidd 2018/19 yn nodi blwyddyn canmlwyddiant Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth. Fe'i sefydlwyd yn sgil y Rhyfel Byd Cyntaf a dyma'r Adran gyntaf o'i bath yn y byd.




*A E Zimmern*

Cyn bwrw ati â gweddill y dathliadau yn ystod 2019, gan gynnwys penwythnos Aduniad Cyn-fyfyrwyr ym mis Mehefin, dyma Gyfarwyddwr Dathliadau'r Canmlwyddiant **Dr Jan Ruzicka** a Phennaeth yr Adran **yr Athro Richard Beardsworth** yn edrych yn ôl ar hanes y ganolfan ragoriaeth hon sy'n arwain y byd wrth astudio cysylltiadau rhyngwladol.

Ym mis Tachwedd 1918 wrth i'r Rhyfel Mawr dynnu at ei derfyn, ymysg y miliynau a laddwyd ar faes y gad roedd mwy na chant o fyfyrwyr o Goleg Prifysgol Cymru Aberystwyth. Aethpwyd ati'n gyflym iawn ag ymdrech wirioneddol unigryw i goffáu eu haberth gyda chymorth Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr. Cwta fis ar ôl y cadoediad, ysgrifennodd yr Uwchgapten David Davies (yr Arglwydd Davies o Landinam maes o law) at Lywydd y Coleg gyda chynnig hynod hael a fyddai yn y pen draw yn gwneud Aberystwyth yn ganolfan fyd-eang ar gyfer dysgu ac ymchwilio i wleidyddiaeth ryngwladol.

Dechreuodd David Davies ei lythyr gyda'r geiriau cofiadwy canlynol: 'Mae fy chwiorydd a minnau wedi bod yn meddwl tybed a fyddai Prifysgol Cymru a Chyngor y Coleg yn fodlon i ni sefydlu Cadair mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Aberystwyth er cof am fyfyrwyr y brifysgol a syrthiodd ar faes y gad.' Roedd y tri yn aelodau o un o deuluoedd enwocaf Cymru – eu taid oedd y diwydiannwr mawr David Davies (Cyn-Drysorydd ac Is-Lywydd y Brifysgol a chymwynaswr mawr), ac mae'r chwiorydd Gwendoline a Margaret yn fwyaf adnabyddus am eu casgliad celf pwysig sydd bellach yn Amgueddfa Cymru yng Nghaerdydd. Roeddynt yn barod i ymrwymo cymaint ag £20,000 (sy'n gyfwerth â tua miliwn o bunnoedd heddiw) tuag at yr achos ac yn awgrymu y dylid enwi'r Gadair er anrhydedd i Arlywydd America, Woodrow Wilson.

Derbyniwyd y cynnig yn frwd yng nghyfarfod y Cyngor ar 13 Rhagfyr 1918, sy'n golygu mai Cadair Woodrow Wilson mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol yw'r gadair athro hynaf o'i bath yn y byd ac, yn gysylltiedig â hynny, dyma sefydlu'r Adran gwleidyddiaeth ryngwladol gyntaf yn y





*Uwch Gapten David Davies a'i chwiorydd Gwendoline a Margaret Davies*

> *"Mae fy chwiorydd a minnau wedi bod yn meddwl tybed a fyddai Prifysgol Cymru a Chyngor y Coleg yn fodlon i ni sefydlu Cadair mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Aberystwyth er cof am fyfyrwyr y brifysgol a syrthiodd ar faes y gad."*

byd. Aethpwyd ati'n gyflym i chwilio a phenodwyd hanesydd amlwg ac aelod o'r Swyddfa Dramor, Alfred Zimmern i fod yr Athro Wilson cyntaf. Ynghyd â'r darlithydd Sydney Herbert, dechreuodd y ddau ar eu swyddi ar 25 Ebrill 1919, gan draddodi darlithoedd ar faterion llosg y dydd megis Cyfamod Cynghrair y Cenhedloedd. Gadawodd Zimmern maes o law i fynd i Brifysgol Cornell yn yr Unol Daleithiau gan ddychwelyd i Loegr i ddod yn Athro Cysylltiadau Rhyngwladol yn Rhydychen, a'r brifysgol honno wedi dal fyny ag Aberystwyth trwy sefydlu ei Chadair ei hun un mlynedd ar ddeg yn ddiweddarach.

Dros y ganrif ddiwethaf, mae Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Aberystwyth wedi tyfu'n sylweddol, ond mae ei chenhadaeth graidd yn parhau fel y rhagwelodd ei sylfaenwyr pan nodwyd ganddynt 'yr angen i ystyried holl bobl y byd fel un'. I'r perwyl hwn, yn eu barn hwy roedd yn gwbl briodol y dylai prifysgol yng Nghymru ymroi i 'annog dealltwriaeth lawn o wareiddiad heblaw am ein gwareiddiad ein hunain.' Fel y dywedir yn y memorandwm sefydlu rhwng y Coleg a'r teulu Davies, 'mae ymchwil yn fyd-eang ac yn dibynnu ar frwdfrydedd a chyfle, ac nid yn llwyr ar y lleoliad'.

Heddiw, mae'r genhadaeth ryngwladol hon yn bodoli yn bennaf oherwydd brwdfrydedd y sylfaenwyr a'r cenedlaethau o staff a myfyrwyr sydd wedi dod drwy'r Adran dros y ganrif ddiwethaf. Law yn llaw ag astudio rhyfel a heddwch, ceir ymchwil ac addysgu ar arweinyddiaeth wleidyddol, iechyd byd-eang a heriau eraill y blaned, adeiladu gwladwriaeth, economi wleidyddol, a threfniadaeth ryngwladol. Mae'r Adran hefyd yn trin a thrafod dadansoddiadau o sawl rhanbarth y byd ac mae'n unigryw wrth roi gwleidyddiaeth Gymreig mewn persbectif rhyngwladol.



*Ffederasiwn Rhyngwladol Cynghrair y Cenhedloedd: ymweliad ag Aberystwyth yn 1926*

### DIGWYDDIADAU I DDOD

Ers y dechrau, un o brif ddyletswyddau unrhyw Athro Wilson, a'r Adran gyfan, oedd cysylltiad agos â'r cyhoedd. Fel rhan o ddathliadau'r Canmlwyddiant, lansiodd yr Adran Gyfres Siaradwyr y Canmlwyddiant gan wahodd siaradwyr uchel eu proffil sy'n ymarfer ac yn astudio gwleidyddiaeth ryngwladol. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithdai gyda llunwyr polisi, cynadleddau academaidd ac aduniad cyn-fyfyrwyr – gweler isod y digwyddiadau sydd i ddod yn 2019 yn Aberystwyth (mae llawer ohonynt wedi'u ffilmio a gellir eu gweld ar wefan y Canmlwyddiant):

**5 MAWRTH 2019**

Yr Athro Steve Smith (Is-ganghellor, Prifysgol Caerwysg a chyn-Bennaeth Adran)

**28 MAWRTH 2019**

Gideon Rachman (Prif Sylwebydd Materion Tramor, *Financial Times*)

**25-27 EBRILL 2019**

Cynhadledd Sefydliad Coffa David Davies ar 'etifeddiaeth ddeallusol Davies'

**2 MAI 2019**

Yr Athro John Ikenberry (Prifysgol Princeton, Ysgol Materion Cyhoeddus a Rhyngwladol Woodrow Wilson)

**3-5 MAI 2019**

Gêm Argyfwng i Gyn-fyfyrwyr yng Ngregynog "Eyeball to Eyeball: Russia, NATO and the Baltic States"

**18-20 MEHEFIN 2019**

Cynhadledd Academaidd, 'Gwaddol Aber a dyfodol Cysylltiadau Rhyngwladol'

**21-23 MEHEFIN 2019**

Penwythnos aduniad cyn-fyfyrwyr a chyn-aelodau o staff yr Adran ar y cyd â Chymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr. Mae croeso i holl gyn-fyfyrwyr Aber.

Cofrestrwch eich lle: www.aber.ac.uk/aduniad2019

Gweler www.aber.ac.uk/cy/interpol/about/centenary i gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein digwyddiadau.

# Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr



## *Aber am byth!*

Gwenda Sippings
Llywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr, 2018-19

Mae'r rhain yn ddyddiau cyffrous i Brifysgol Aberystwyth, ac mae'n bleser mawr i Gymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr (CCF) i gael bod yn rhan o hynny. Trwy'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, rydym yn cydweithio'n agos â'r Brifysgol, ond rydym yn parhau i fod yn sefydliad ar wahân, gan gyfrannu ein barn a'n profiad fel llais annibynnol. Caiff pawb sydd wedi graddio o Aber eu cofrestru yn aelod Cyswllt o'r Gymdeithas, ond fel Llywydd, gobeithiaf y bydd mwy yn trosi i fod yn Aelod Oes* i gael llais yng nghefnogaeth y Gymdeithas i'r Brifysgol, a chadarnhau eu teyrngarwch am byth i Aberystwyth: "Aber am byth".

Mae'r Gymdeithas yn hyrwyddo cysylltiadau rhwng cyn-aelodau'r Brifysgol ac aelodau presennol. Mae llawer o gyn-fyfyrwyr yn cwrdd yn Aberystwyth o dro i dro, a gall y rheiny sy'n aelodau o'r Gymdeithas elwa ar gymorth wrth drefnu ymweliadau a chyfarfodydd yn y Brifysgol. Mae gan y Gymdeithas raglen o ddigwyddiadau ar adeg ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) fel rhan o'r Aduniad blynyddol, sydd yn aml yn rhoi modd i fyfyrwyr y gorffennol o bob disgyblaeth ddarganfod mwy am wahanol adrannau. Eleni yw canmlwyddiant astudio Gwleidyddiaeth Ryngwladol yma, yn ogystal â chanrif o'r astudiaeth o Fridio Planhigion yn Aberystwyth, ac rydym yn edrych ymlaen yn arbennig at ddigwyddiadau sy'n dathlu'r ddwy garreg filltir hyn. Rydym yn gobeithio croesawu grŵp sy'n bwriadu dychwelyd i Aber o Malaysia, a bydd grŵp arall o gyn-fyfyrwyr yn dathlu 50 mlynedd ers eu hamser yn Aber. Beth am ymuno â ni ar 21 - 23 Mehefin 2019?

Hoffwn i'r Gymdeithas gofio a dathlu gwaith adrannau sydd wedi newid, wedi uno neu nad ydynt bellach yn rhan o'r Brifysgol, gan fod pob un ohonynt wedi chwarae rhan bwysig yn ein hanes. Rhowch wybod i ni os hoffech weld rhywbeth ar thema benodol mewn Aduniad yn y dyfodol.

Ffurfiwyd y Gymdeithas i gefnogi'r Brifysgol mewn cyfnodau anodd. Dechreuodd gyda phecyn achub i'r Brifysgol yn y 1890au, ac ers hynny mae cyfraniad y Gymdeithas wedi cynnwys helpu i ariannu'r caeau chwarae, y Ganolfan Chwaraeon, campws Penglais, yr Ystafelloedd Ymgynnull (y Ganolfan Gerddoriaeth yn fuan), y gofeb rhyfel a'r clychau yng Nghlochdy'r Neuadd Fawr. Oni fyddai hi'n wych clywed y rheini'n canu eto yn 2019? Rydym yn arbennig o falch eleni i gefnogi Prosiect yr Hen Goleg. Mae defnyddio'r adeilad eiconig hwn at ddibenion cymysg – mentrau academaidd, cymunedol a masnachol – yn ddyfodol teilwng i adeilad a ddaeth yn brifysgol trwy haelioni pobl Cymru. Mae canghennau'r Gymdeithas yn dal i gymdeithasu a chodi arian i gefnogi myfyrwyr neu brosiectau penodol, yn ogystal â gwirfoddoli eu hamser.

Fel Llywydd, hoffwn wneud yn siŵr fod y berthynas rhwng y Gymdeithas a'r Brifysgol yn parhau i ffynnu gyda'r haelioni hanesyddol ar y ddwy ochr, a'n bod yn glir am y gefnogaeth a roddwn y naill i'r llall. Mae lleoliad ein hystafell gyfarfod a swyddfa'r Gymdeithas yn yr Hen Goleg yn dal yn y cynlluniau presennol ar gyfer ailddatblygu. Mae llwyddiant y Gymdeithas yn dibynnu ar y cariad at Aberystwyth fel lle ac fel prifysgol sydd gan gyn-fyfyrwyr a staff sydd wedi elwa o'u hamser yma, a'u dymuniad i barhau i fod mewn cysylltiad ag ef fel Aelodau Oes. Hir oes i "Ysbryd Aber".

**1 MEHEFIN 2019**
Darlith Llanymddyfri, Coleg Llanymddyfri

**21-23 MEHEFIN 2019**
Aduniad y Gymdeithas a CCB, Aberystwyth

**22-25 GORFFENNAF 2019**
Y Gymdeithas a Phrifysgol Aberystwyth yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru

**3-10 AWST 2019**
Y Gymdeithas a Phrifysgol Aberystwyth yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru

* Cewch ragor o wybodaeth ynghylch dod yn Aelod Oes o'r Gymdeithas yn www.aber.ac.uk/cy/development/osa

Gweler cylchgrawn y Gymdeithas, The Annual yn www.aber.ac.uk/cy/development/osa/the-annual

A chofiwch ein dilyn ni ar:
@Aber_OSA





# Aber Dramor



Louise Jagger
Cyfarwyddwr, Datblygu a Chysylltiadau Alumni

Mae Aberystwyth bellach mewn cysylltiad â mwy na 63,000 o gyn-fyfyrwyr sy'n byw mewn 158 o wledydd ledled y byd.

Mae cefnogaeth ein cyn-fyfyrwyr rhyngwladol yn parhau i dyfu, ac ynghyd â'n Llysgenhadon Rhyngwladol, rydym yn cael cefnogaeth wirfoddol amhrisiadwy ar ystod o weithgareddau gan gynnwys digwyddiadau recriwtio myfyrwyr, partneriaethau academaidd a chroesawu academyddion gwadd.

Yn 2018, cynhaliwyd aduniadau a chyfarfodydd yn Vancouver, Efrog Newydd, Washington DC, Dubai, Hong Kong, Singapore ac mae un arall ar y gweill yn Seland Newydd. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi mynychu ac am y cymorth wrth drefnu'r digwyddiadau hyn ac wrth ddatblygu ein rhwydwaith byd-eang.

Byddwn yn cyhoeddi newyddion am ein gweithgarwch rhyngwladol yn y Flwyddyn Newydd a bydd yn cynnwys digwyddiadau yn Tsieina, lle rydym am gynyddu ein rhwydwaith yn y blynyddoedd i ddod i gefnogi recriwtio myfyrwyr a phartneriaethau academaidd. Byddem yn croesawu'n fawr cael syniadau a chynigion i helpu, gweler y manylion cysylltu isod.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gweithgarwch a'n cynlluniau rhyngwladol, cysylltwch ag.

alumni@aber.ac.uk



*Derbyniad Cyn-fyfyrwyr Efrog Newydd, Awst 2018*

## Malaysia

Ym mis Rhagfyr, cynhaliom ginio arbennig ar gyfer ein wyth Cymrawd Anrhydeddus o fri ynghyd ag aduniad mawr. Daeth 140 o gyn-fyfyrwyr dros saith degawd i'r achlysur a oedd wedi'i drefnu mewn partneriaeth â Chlwb Alumni Prifysgol Aberystwyth Malaysia.

Rydym yn arbennig o ddiolchgar i Dato' Nasharuddin bin Hussin, Llywydd Clwb Alumni Prifysgol Aberystwyth Malaysia, a'i Bwyllgor, am eu cefnogaeth eithriadol eleni, ac i gyn-Lywydd Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr Steve Lawrence sy'n dal i helpu i ddatblygu ein cyfeillgarwch â chyn-fyfyrwyr ym Malaysia a chryfhau'r cysylltiadau rhyngddynt a'r Brifysgol.

Traddodwyd dwy ddarlith nodedig gan ein Canghellor yr Arglwydd Thomas, y gyntaf yng Ngŵyl Cymru Gogledd America ym mis Awst ar wahoddiad cyn-fyfyrwyr yn Washington DC. Yna'r ail ym mis Rhagfyr, ym Mhrifysgol Kebangsaam Malaysia (UKM) yn Kuala Lumpur yn sgil gwahoddiad gan Ganghellor y brifysgol honno, sef cyn-fyfyriwr Aberystwyth a Chymrawd Anrhydeddus, Ei Uchelder Brenhinol Tuanku Muhriz, a'r achlysur hwnnw hefyd yn cynnwys llofnodi cytundeb cydweithredu rhwng y prifysgolion gan yr Is-Ganghellor yr Athro Elizabeth Treasure.

*__Isod:__ Llofnodi cytundeb cydweithredu rhwng UKM a Phrifysgol Aberystwyth*
*__Isod chwith:__ Uwch Urddau yn mynychu darlith flynyddol EUB Tuanku Muhriz a draddodwyd gan yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd*







# Cyfuno Daearyddiaeth â Bioleg yn y Frwydr yn erbyn Malaria

Geiriau gan Dr Andy Hardy, darlithydd mewn synhwyro o bell yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Ar hyd gwastatiroedd llifwaddod Zambezi yng ngorllewin Zambia, mae trŷc pic-yp oddi-ar-y-ffordd yn trybowndio mynd tuag at gyfleuster iechyd pellennig. Er yr oriau hir o deithio, mae caban y trŷc yn byrlymu â sylwebaeth ar symudiad afon Zambezi, gan adael cyfres o byllau dŵr y tu ôl iddo, ynghyd ag arsylwadau ar ecoleg y mosgitos sy'n lledaenu clefydau fel malaria a'r heriau i iechyd y cyhoedd sy'n wynebu'r bobl sy'n byw yn y rhanbarth malaria anghysbell hwn

Rwyf wedi bod yn cydweithio'n agos â chydweithwyr yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ers nifer o flynyddoedd, â'r un nod yn darged yn aml: ble mae mosgitos malaria yn bridio? Drwy ddod o hyd i'r dŵr y mae mosgitos malaria yn ei ddefnyddio i ddodwy wyau, gallwn helpu i fapio risg malaria a helpu i gyfeirio adnoddau at y mannau sydd eu hangen fwyaf.

Mae malaria yn parhau i fod yn faich byd-eang real iawn. Er gwaethaf datblygiadau mawr yn rheoli'r afiechyd, mae adroddiad diweddar gan Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod malaria wedi bod yn gyfrifol am oddeutu 435,000 o farwolaethau yn 2017, gyda chyfran fawr o'r rhain yn Affrica Is-Sahara. Ond sut ydyn ni'n helpu i fynd i'r afael â'r her fyd-eang hon?

Dechreuodd fy siwrnai yn hyn o beth yn ôl yn Tanzania yn 2011 pan ymunais â Phrifysgol Aberystwyth fel cynorthwyydd ymchwil ôl-ddoethurol ar brosiect dan arweiniad yr Athro Chris Thomas (Dirprwy Is-Ganghellor – Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesedd). Roedd hwn yn brosiect i ymchwilio i'r cysylltiad rhwng malaria a hydroleg (y prosesau sy'n rheoli symudiad dŵr drwy'r tirwedd). Nododd yr astudiaeth arloesol hon y cysylltiad cymhleth rhwng daearyddiaeth ffisegol y dirwedd ac ecoleg mosgitos sy'n cludo malaria, ac yn y pen draw dangosodd yr astudiaeth fod angen i ecolegwyr a daearyddwyr gydweithio i ganfod atebion i helpu i fynd i'r afael â'r afiechyd pwysig hwn.

Yn ystod y blynyddoedd canlynol cafwyd nifer o ddatblygiadau o bwys wrth ddefnyddio delweddau lloeren i fapio pyllau dŵr y mae mosgitos malaria yn bridio ynddynt, ynghyd â thechnegau modelu ecolegol soffistigedig. Mae'r ymchwil gydweithredol hon wedi helpu i wneud Prifysgol Aberystwyth yn arweinydd byd-eang yn y maes hwn, ac mae potensial iddi gael effeithiau enfawr ar iechyd a lles pobl yn y rhanbarthau hynny sydd wedi'u llethu gan falaria.





*Llun drôn dros gynefin y mosgito yn Stone Town, Zanzibar.*



*Cnydau reis yn Mwera Zanzibar sy'n safle perffaith ynghyd â safleoedd eraill i fosgitos i ddodwy wyau*

Un elfen y mae ein tîm DGES-IBERS yn canolbwyntio arni ar hyn o bryd yw ynysoedd trofannol Zanzibar, oddi ar arfordir Tanzania. Mae Zanzibar a'u rhaglen rheoli malaria yn agos iawn at gael gwared ar y clefyd o'u hynysoedd. Gan weithio'n agos â chydweithwyr yng Ngweinyddiaeth Iechyd Zanzibar, y nod yw defnyddio technoleg arloesol i ddarganfod a dinistrio cynefinoedd mosgitos malaria.

Ar Zanzibar, mae'n anodd canfod cynefinoedd mosgitos malaria oherwydd eu bod yn fach eu maint neu oherwydd bod cnydau reis hefyd yn y pwll dŵr. Yma, mae ein tîm, ynghyd â chydweithwyr yn IBERS, yn ymchwilio i ddefnyddio dronau a ffonau clyfar fel ateb. Drwy gynnal arolygon drôn mewn rhanbarthau sydd â malaria ynddynt, gallwn nodi union leoliad safleoedd bridio posibl. Caiff y wybodaeth hon ei lanlwytho i ap ffôn symudol pwrpasol y bydd aelodau'r gymuned leol yn ei ddefnyddio i lywio eu ffordd drwy'r dirwedd, yn union fel 'llywio lloeren', dod o hyd i'r pwll dŵr a thrin y dŵr â larfaladdwr gwenwynig. Drwy wneud hynny, dylem allu lleihau nifer y mosgitos malaria sy'n brathu pobl ac yn trosglwyddo'r afiechyd.

Uchelgais greiddiol y math hwn o waith yw trosi ymchwil wyddonol yn fanteision pendant er budd iechyd y cyhoedd. O'r herwydd, nod penodol y prosiect a gynlluniwyd gennym yn Zanzibar yw defnyddio technoleg rad sydd yn rhwydd cael gafael arni. Yn hyn o beth, cynlluniwyd ein ap (a ddatblygwyd gan ein partneriaid prosiect Sight-DX, Israel) yn benodol i weithio ar ffonau clyfar rhad. Yn yr un modd, mae'r dronau a ddefnyddir gennym yn rhai cyffredin sydd yn rhwydd i'w prynu. Drwy gyfuno'r dechnoleg isel ei chost hon ag ymgysylltu agos â chymunedau lleol a phartneriaid, gallwn helpu i sicrhau effeithiau gwirioneddol.

Drwy harneisio'r dechnoleg ddiweddaraf, ochr yn ochr â dealltwriaeth drylwyr o ddaearyddiaeth ffisegol ac ecoleg, mae atebion arloesol wrthi'n cael eu datblygu i helpu i wireddu dileu malaria mewn llefydd fel Zanzibar.

**SEFYDLIAD IECHYD Y BYD**


## Malaria – Ffeithiau Allweddol

**219 miliwn**
miliwn o achosion o falaria mewn 90 gwlad







Marwolaethau oherwydd malaria wedi cyrraedd **435,000** yn 2017




**Mae plant dan 5 oed mewn perygl mawr o gael malaria**

(Yn 2015, bu farw **303,000** o blant Affrica cyn eu **5ed pen-blwydd**)

Affrica oedd lleoliad **92%** o achosion o falaria a **93%** o farwolaethau oherwydd malaria



Parasitiaid plasmodiwm sy'n achosi malaria, ac mae'n cael ei gario gan gnoad neu frathiad mosgito benywaidd *Anopheles* sydd wedi'i heintio




Yn 2016, amcangyfrifiwyd y buddsoddwyd **$2.7 biliwn** o ddoleri'r UDA i geisio rheoli malaria mewn ymdrechion byd-eang i'w ddileu



# Sioned Wiliam

## Golygydd Comisiynu Comedi i Radio 4 y BBC a Radio 4 Extra

Cyfweliad gan
John Gilbey
(gilbey@bcs.org.uk)

**Diwrnod y Sylfaenwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth oedd hi, ac ar ôl seremonïau cynnar y bore a cherdded i 'gicio'r bar', areithiau a dathliad brecwast yn yr Hen Goleg, es i siarad â'r Cymrawd a'r gyn-fyfyrwraig Sioned Wiliam – sy'n Olygydd Comisiynu Comedi i Radio 4 y BBC a Radio 4 Extra – am ei haddysg, ei gyrfa a'r dylanwadau arni. Priodol iawn o bosibl oedd ein bod wedi trefnu cyfarfod ym mar theatr Canolfan y Celfyddydau.**

Roedd Sioned yn fyfyrwraig israddedig yn Aberystwyth rhwng 1979 a 1982. "Roeddwn i eisiau mynd i dref Gymraeg ei hiaith a byw bywyd Cymraeg go iawn – mynd i gigs, cwrdd â myfyrwyr eraill o bob cwr o Gymru, byw ym Mhantycelyn a chael y math unigryw hwn o fywyd cymdeithasol. Roedd yn apelio'n fawr iawn ac yn andros o hwyl, cefais amser bendigedig am dair blynedd."

Dewiswyd y cwrs yn ofalus ganddi, gan fod â rhan bwysig o'i gyrfa wedi hynny. "Roeddwn i eisiau gweithio gydag Emily Davies a'r Athro Elan Closs Stephens a oedd yn rhedeg yr adran ar y pryd, felly cefais radd mewn drama trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hi'n Oes Aur, roeddwn yn hynod o lwcus i fod yno bryd hynny, oherwydd roedden nhw'n rhagorol ac roedden nhw'n gwahodd pobl i ddod mewn i weithio gyda ni a oedd hefyd yn wych, felly roedd yn gyfle anhygoel."

> *"… ro'n i eisiau gweithio gydag Emily Davies ac Elan Closs Stephens drwy gyfrwng y Gymraeg … roedd hi'n Oes Aur."*

Er bod y cwrs wedi'i wreiddio yn y Gymraeg, roedd nifer o gydweithrediadau ehangach hefyd. "Daeth llawer o bobl i weithio gyda ni – roedd gennym gwmnïau Ewropeaidd o Ddenmarc a Tsiecoslofacia. Roeddem yn teimlo'n Ewropeaidd, ac roedd yna wir deimlad o gael adrodd ein stori ein hunain trwy ein hiaith ein hunain – er ein bod yn wlad fechan, roedd ein stori yr un mor werthfawr â stori unrhyw un arall."

Pan ofynnais a oedd unrhyw gynhyrchiad myfyrwyr yn glir yn ei chof, gwenu wnaeth Sioned. "Rwy'n cofio gwneud *King Lear* gydag Emily, pawb mewn ffrog blaen iawn, ac mi wnaethon ni greu'r gwynt, y stormydd ac ati ein hunain – roedd yn gyffrous iawn. Alun ap Brinley, sydd bellach yn *Pobol y Cwm*, oedd Lear a finnau oedd y Ffŵl! Roedd yn ardderchog."

"Roedden ni'n defnyddio dulliau Stanislavski felly gwnaethom lawer o waith â'r llais, a gweithio llawer ar Chekov hefyd. Roedd hi wir yn addysg gyflawn, ac ar ben hynny roedd yna ran academaidd eithaf anodd i'r radd lle roedden ni'n astudio mytholeg, mynegiadaeth a naturiolaeth – holl ffurfiau theatrig gwych y 19eg a'r 20fed ganrif. A chwrs sydd wedi bod yn gaffaeliad mawr i mi oedd yr un ar ddadansoddi sgript, sydd wedi bod yn gonglfaen i fy ngyrfa ers hynny."

Ar ôl graddio, aeth Sioned ymlaen i astudio ym Mhrifysgol Rhydychen a chymryd rhan yn yr Oxford Revue. "Roeddwn i'n ffodus iawn i fod yno gydag Armando Iannucci a David Schneider, roedd yma grŵp anhygoel o bobl. Fe wnes i gryn dipyn o berfformio yno, yna dechrau perfformio ar Radio 4 cyn mynd yn gynhyrchydd. Ar ôl cwrs hyfforddi mis o hyd roeddech chi'n cael eich taflu yn syth i wneud rhaglenni, roedd yn gyffrous iawn! Cefais i wneud pethau fel '*Week Ending*', llawer o sit-coms, sioeau sgetshis a stand-yp. Roedd yn wych, lle ffantastig i weithio!"

"Roeddwn i yno am ddwy neu dair blynedd cyn mynd i weithio i'r byd teledu. Roedd popeth yn llawer haws gan fy mod wedi bod yn yr Oxford Revue a bod gyda'r holl bobl anhygoel, dalentog hyn. Fe wnes i sioe Jonathan Ross am flwyddyn, a oedd yn 'fyw' deirgwaith yr wythnos, yna es ymlaen i gwmni Mel Smith a Griff Rhys Jones '*Talkback*', ac yna '*Hat-Trick*' lle gweithiais ar '*Drop the Dead Donkey*' a '*Game On*'."

Ar ôl gweithio'n llawrydd, fel cynifer o bobl eraill yn y maes, a'i derbyn yn Gymrawd Anrhydeddus ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2008, aeth Sioned i'r swydd Golygydd Comisiynu Comedi i Radio 4 y BBC a Radio 4 Extra dair blynedd yn ôl. Gofynnais iddi beth oedd ei barn am ddyfodol comedi radio heddiw. A oes modd inni gael dychan mewn byd sydd â chymaint o ansicrwydd ynddo?

"Oes! Mae e gennym ni'n sicr bob nos Wener am 6.30 – mae'n hynod boblogaidd. Mae ein ffigyrau gwrando yn codi, o bosib oherwydd bod radio yn rhywbeth sy'n gallu mynd i bobman, ac mae'r chwyldro sain digidol wedi ein helpu ni. Erbyn hyn mae cynifer o bobl wedi arfer gwrando dan gerdded neu gymudo, gyda miliynau o lawrlwythiadau ar gomedi Radio 4 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae ein podlediadau ar frig y siartiau yn rheolaidd – felly mae'n tyfu. Rydyn ni'n creu 260 awr y flwyddyn, rwy'n credu ein bod fwy na thebyg yn gwneud mwy o gomedi nag unrhyw un arall yn y byd. Mae'n mynd o nerth i nerth, ac mae'n anrhydedd ac yn fraint bod yn rhan ohono."

# Proffiliau Cyn-Fyfyrwyr

Rydym bob amser wrth ein bodd yn cael gwybod beth mae ein cyn-fyfyrwyr yn ei wneud nawr ac i ble y mae eu haddysg yn Aber wedi mynd â nhw – dyma gipolwg ar rai ohonynt o bob cwr o'r byd.

I weld fersiynau hirach o'r proffiliau, ewch i www.aber.ac.uk/cy/development/alumniprofiles




## Cathy Alexander

**BSc Sŵoleg 2013**

Mae Cathy yn gweithio fel Ceidwad Monitro Bioamrywiaeth i'r Adran Gadwraeth yn Seland Newydd.

"Cafodd fy niddordeb mewn cadwraeth anifeiliaid ei sbarduno ar ôl astudio nifer o fodiwlau cadwraeth yn y drydedd flwyddyn yn Aber. Tyfodd fy niddordeb ar ôl hynny a gwirfoddolais i ambell brosiect cadwraeth ledled y byd ac roedd hynny wedi rhoi'r profiad roeddwn ei angen ar gyfer y swydd hon. Mae'r gwaith rydw i'n ei wneud yma yn rhan o brosiect monitro cenedlaethol, sy'n bennaf yn golygu hedfan i rannau anghysbell o'r wlad i gyfrif baw poswm a cheirw, cyfrif adar a defnyddio cardiau cnoi i fonitro presenoldeb poswm."



## Tom Nordheim

**BSc Gwyddor y Gofod a Roboteg 2009**

Ar hyn o bryd mae Tom yn wyddonydd ymchwil yng Ngrŵp Cemeg ac Astrobioleg Planedau yn Labordy Jet-yriant NASA.

"Ffocws pwysig fy ngwaith yw ymchwilio i bosibiliadau fod yna fywyd yn y bydoedd rhewllyd ar ymylon cysawd yr haul drwy ddefnyddio data o deithiau gofod. Yn ogystal â hyn, rwy'n gweithio ar fathau newydd o offer a robotiaid i'w defnyddio i archwilio amgylcheddau eithafol ar y Ddaear, gyda'r nod o baratoi at deithiau i'r gofod yn y dyfodol."





## Gareth Lanagan

**BSc 2004. MSc 2006 PhD 2011 Mathemateg**

Mae Gareth ar hyn o bryd yn Rheolwr Safon Uwch yng Ngholeg Meirion Dwyfor ac wedi symud i'r swydd hon ar ôl bod yn athro mathemateg.

"Roedd Aber yn lleoliad hyfryd ac fe gefais y cydbwysedd gorau rhwng gweithio'n galed a chwarae'n galed. Roedd y gefnogaeth gan staff yn rhoi ymdeimlad o deulu i'r lle. Roedd rhywun wrth law i helpu. Dydw i ddim yn credu y byddwn wedi derbyn y gefnogaeth fugeiliol neu academaidd mewn unrhyw sefydliad arall. Hefyd, roedd y profiadau chwaraeon yn anhygoel ac roeddem bob amser yn gwneud mwy na thynnu'n pwysau!"






## Audrey Siew

**LLB y Gyfraith 2008**

Ar ôl gwneud ei gradd israddedig yn Aberystwyth, bu Audrey yn gweithio yn y sector gwirfoddol, cyn cael swydd gyda chwmni meddygol-gyfreithiol ym Manceinion. Ar ôl dwy flynedd o brofiad yn y Deyrnas Unedig, dychwelodd i Kuala Lumpur a dechrau ar ei gyrfa fel partner yn Ernst & Young yn eu hadran Gwasanaethau Cynghori.

"Er nad oeddwn wedi ymarfer y gyfraith ym Malaysia, rwyf wedi gallu defnyddio'r sgiliau datrys problemau a sgiliau rhesymu i gynorthwyo fy nghleientiaid i lunio cynllun i weithredu prosiectau yn effeithiol ac yn llwyddiannus, ar yr un pryd â sicrhau cydymffurfio â'r llywodraethu priodol. Mae'r sgiliau a enillais wrth astudio'r gyfraith yn Aber wedi rhoi sylfaen gadarn i mi ac wedi bod yn gam i mi ddechrau'n llwyddiannus ar fy ngyrfa hyd yn hyn ac wedi fy mharatoi i ddelio â gwahanol yrfaoedd yn y byd gwaith."






## Zoran Thomirovic

**MA Gwleidyddiaeth Ryngwladol 2014**

Gwirfoddolodd Zoran am gyfnod byr gyda Chanolfan Ranbarthol Cynorthwyo â Gweithredu a Gwirio'r Rheolaeth ar Arfau, cyn gweithio fel swyddog desg i Ffederasiwn Rwsia yng Ngweinyddiaeth Materion Tramor Gweriniaeth Croatia. Ers 2016 mae wedi gweithio fel cynorthwyydd dysgu i Gadair Llenyddiaeth Rwsia yng Nghyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol yn Zagreb, Croatia.

"Mae'r sgiliau dadansoddi a enillais wrth astudio Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Aberystwyth yn werthfawr iawn yn fy swydd bresennol, yn ogystal â swyddi blaenorol yn y llywodraeth. Fe roddodd fodd i mi ehangu fy sgiliau a fy ngradd Rwsieg a chymdeithaseg a'u trosglwyddo i'r maes gwleidyddiaeth ryngwladol."




*Chwith i'r Dde - Datblygwyr Clipr Howun Lam, James Stone and James Bryan*

## Ap gwallt a harddwch yn ennill InvEnterPrize 2018

Ap ffôn symudol wedi'i gynllunio i chwyldroi apwyntiadau yn y sector gwallt a harddwch oedd enillydd gwobr InvEnterPrize Prifysgol Aberystwyth 2018.

Datblygwyd yr ap, Clipr, gan dîm o fyfyrwyr James Bryan, James Stone a Howun Lam, ac fe'i gynlluniwyd er mwyn dod â salonau harddwch a siopau trîn gwallt yn nes at eu cwsmeriaid a'u galluogi i redeg eu busnesau o'u ffônau symudol.

"*Airbnb* yn cwrdd ag *Uber* ar gyfer gwallt ac harddwch yw'r ap", meddai James Bryan, a gafodd ei ysbrydoli tra'n chwilio am salon trin gwallt oedd ar agor ar ddydd Sul yn Aberystwyth.

Ynghyd â theitl enillwyr InvEnterPrize, derbyniodd y tîm wobr o £10,000. Wedi'i ddarparu gan gyn-fyfyrwyr drwy Gronfa Aber, mae'r wobr yn galluogi'r enillydd i fuddsoddi mewn offer, cyfleusterau neu wasanaethau proffesiynol er mwyn gwireddu'r ddyfais neu syniad cychwyn busnes.

Dywedodd James Bryan: "Mae ennill InvEnterPrize yn hwb enfawr a bydd yn ein galluogi i ddatblygu fersiwn iOS ar gyfer dyfeisiau *Apple* gan mai ar ddyfeisiau *Android* yn unig y mae'n bod ar hyn o bryd. Rydym hefyd am ei gwneud hi'n bosib i'r busnesau sy'n rhan o'r prosiect i gymryd taliadau digidol yn ddiogel."

Cyflwynodd y chwech terfynol eu cynigion busnes i'r panel o feirniaid mewn digwyddiad tebyg i fformat y rhaglen deledu boblogaidd *Dragon's Den* ar 19 Mawrth 2018. Mae pob un o'r beirniaid yn raddedig o Brifysgol Aberystwyth.

# Rhoddion i Brifysgol Aberystwyth yn 2017 - 2018



Hayley Goddard
Swyddog Rhoddion Unigol

Mae eich rhoddion i gefnogi ein myfyrwyr a'r Brifysgol unwaith eto wedi ein helpu i gyflawni cymaint eleni. Rydych wedi newid bywydau ac wedi cefnogi nifer o brosiectau newydd ledled y Brifysgol – ni fyddai unrhyw un o'r rhain wedi bod yn bosibl heb eich help chi.

Rhoddion gan gyn-fyfyrwyr yw sylfaen yr arian rydym yn ei godi, sef £823,413 o'r cyfanswm o £998,585 a roddwyd yn 2017/8. Codwyd £162,530 trwy grantiau, gan gynnwys £138,996 o Gronfa Dreftadaeth y Loteri tuag at flwyddyn gyntaf cam ddatblygu'r Hen Goleg.

Diolch yn fawr iawn i'n holl roddwyr, a bellach maent wedi'u rhestru a diolchir iddynt ar-lein yn ein rhestr rhoddwyr blynyddol www.aber.ac.uk/cy/development/support/thank-you

## Eich rhoddion yn 2017-18

### ar gyfer ein tair blaenoriaeth codi arian




Rydych wedi ariannu **41 o brosiectau myfyrwyr**

Helpu myfyrwyr i gymryd rhan mewn prosiectau newydd na fyddai wedi bod yn bosibl heb eich help chi

Cefnogi mwy na **1400 o fyfyrwyr**

Lliniaru caledi myfyrwyr; cefnogi lles myfyrwyr; a chynyddu nifer y cyfleoedd sy'n agored i bob myfyriwr

*"Hoffwn ddiolch yn bersonol i Gronfa Aber am yr holl gymorth a chefnogaeth wrth greu'r cyfle anhygoel hwn. Roedd hi'n hynod fuddiol i mi gael fy hun mewn amgylchedd mor broffesiynol. Byddaf yn dragwyddol ddiolchgar, oherwydd fe ddangosodd imi fod fy nyheadau gyrfa hyd yn oed yn agosach nag yr oeddwn wedi'i feddwl. Diolch am ei wneud yn bosibl"*

**Agata Rafalska** (BA Astudiaethau Ffilm a Theledu, 2018).
Derbynnydd bwrsariaeth teithio, Gŵyl Ffilm Tribeca, Efrog Newydd



## EIN CYMUNED O RODDWYR

Rhoddwyd **£823,413** gennych yn ystod 2017/18



| | |
|---|---|
| Y rhodd unigol fwyaf | £18,750 |
| Swm rhodd reolaidd bob mis ar gyfartaledd | £22 |
| Swm rhodd unigol ar gyfartaledd | £412 |
| Cymynroddion | £696,312 |

Rhoi cefnogaeth amhrisiadwy i ymchwil, ysgoloriaethau PhD a dyfodol y Brifysgol

| | |
|---|---|
| Rhoddion o tu allan y DU | 12 |
| Nifer y rhoddwyr unigol | 471 |

## Edrych i'r dyfodol

**Mae eich cefnogaeth yn parhau i fod yn hanfodol i brofiad myfyrwyr yn Aberystwyth ac i'n strategaeth i dyfu'r Brifysgol ac i fedru cystadlu mewn cyfnod heriol i Addysg Uwch.**

Gan gydweithio gyda'n gilydd, ein nod yw cynyddu'n sylweddol ar ein hincwm drwy godi arian, a hynny ar gyfer y blaenoriaethau isod, er mwyn cael hyd yn oed mwy o effaith a gwneud mwy o wahaniaeth i'n myfyrwyr a'r Brifysgol.

### DATBLYGIADAU ACADEMAIDD AC YMCHWIL

Gyda'ch help, byddwn yn datblygu ymhellach ar ymchwil sy'n cael effaith ac sydd o safon fyd-eang. Bydd eich cefnogaeth yn arwain at ragor o ysgoloriaethau PhD i fyfyrwyr i ddatblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o rai o'r heriau byd-eang anoddaf a phwysicaf sy'n wynebu cymunedau heddiw.

### APÊL YR HEN GOLEG

Bydd eich cefnogaeth i'n hapêl yn helpu i ddiogelu dyfodol yr Hen Goleg a thrawsnewid yr adeilad eiconig hwn, sy'n rhestredig Gradd I ac sydd yn agos at galon cynifer o bobl, ar gyfer y Brifysgol a'r dref erbyn ei phen-blwydd yn 150 oed yn 2022/23.

*"Wrth edrych yn ôl, rydw i'n aml yn teimlo bod holl brofiadau fy mywyd yn ddyledus i'r amser gwych a dreuliais yn yr Hen Goleg a'i gyffiniau, adeilad sy'n haeddu'r holl ddiogelu y gall ei gael."*

**Hugo Baetens-Beardsmore** (Ffrangeg, 1967)

### CYMORTH I FYFYRWYR (CRONFA ABER)

Trwy gyfrannu i Gronfa Aber, byddwch yn cefnogi prosiectau sy'n uniongyrchol yn cyfoethogi bywydau ein myfyrwyr ym meysydd Caledi Myfyrwyr, Lles Myfyrwyr a Chyfleoedd i Fyfyrwyr. Wrth ddyfarnu grantiau ledled adrannau academaidd ac adrannau cymorth allweddol, mae Cronfa Aber yn cyffwrdd â bywydau dros fil o fyfyrwyr bob blwyddyn.

### CEFNOGI'R BRIFYSGOL

Gallwch wneud gwahaniaeth drwy roi

- **Ar-lein:** gallwch roi'n rheolaidd neu roi un rhodd yn www.aber.ac.uk/rhoi
- **Post:** gallwch drefnu rhoi'n rheolaidd drwy ein ffurflen rhoi, neu roi rhodd unigol drwy siec
- **Dramor:** gall cefnogwyr rhyngwladol roi drwy gydweithrediad ein partneriaid: System SWIFT; y Gronfa Americanaidd i Elusennau (AFC); a Sefydliad Ysgolion a Phrifysgolion Prydain (BSUF).

I gael rhagor o fanylion neu i drafod rhodd, cysylltwch â **Hayley Goddard** yn y tîm Datblygu a Chysylltiadau Alumni ar 01970 622083 neu hvg@aber.ac.uk



NODWEDD

# Cyfrifiadureg

## ym Mhrifysgol Aberystwyth

Yn fy ngyrfa fel awdur gwyddonol, rwyf wedi cyfweld â gwyddonwyr cyfrifiadurol o Gaeredin i Stanford, ac rwyf wedi ymweld â chyfleusterau campws ymchwil dwys o'r Diamond Light Source i'r Googleplex. I raddau helaeth, mae pob safle yn creu ei deimlad ei hun - y ffordd y mae staff yn rhyngweithio â'i gilydd, cynnwys byrhoedlog y byrddau gwyn a natur yr amgylchedd cyfagos – a'r rhain oll yn helpu i ddisgrifio'r ymdeimlad o gymuned mewn adran technoleg uwch. Ond mae cael cais i drafod eich prifysgol eich hun yn wahanol rywsut, ac mae cael ysgrifennu'r adroddiad hwn am adran Gyfrifiadureg Prifysgol Aberystwyth – adran yr wyf wedi bod yn gysylltiedig â hi rywfodd neu'i gilydd ers rhyw ugain mlynedd – yn fraint ac yn gyfle i ddadansoddi beth sy'n unigryw amdani.

Mae'r gwahanol ymchwil a wneir gan yr Adran yn dangos y pwyslais ar gysylltu â disgyblaethau eraill ac â'r byd ehangach, yn ogystal â'r pwyslais ar gyflawni rhagoriaeth academaidd trwy gyhoeddi mewn cyfnodolion ar lefel uchel. Mae'r grŵp Rhesymu Uwch, er enghraifft, yn gweithio'n rhannol ar ddiagnosis awtomataidd ar fethiannau mewn cerbydau – gan chwilio am algorithmau newydd i ddadansoddi methiant yn ddibynadwy mewn systemau technegol soffistigedig. Afraid dweud, mae hyn yn arwain at ryngweithio sylweddol a chynhyrchiol gyda phartneriaid diwydiannol yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r themâu ymchwil hyn yn aml yn croesi cryn dipyn ar draws ei gilydd, sydd o fudd i bawb.

Mae'r grŵp Biowybodeg a Bioleg Gyfrifiadurol, sy'n edrych ar y problemau cymhleth yn ymwneud â setiau data biolegol mawr, genomeg a gwyddoniaeth fiofeddygol, yn rhannu llawer o ddiddordebau â'r tîm Gweledol, Graffeg a Delweddu, a

gan John Gilbey*
(gilbey@bcs.org.uk)

*Mae John Gilbey yn awdur gwyddoniaeth a ffuglen wyddonol - ac yn diwtor rhan amser yn yr Adran Gyfrifiadureg, Prifysgol Aberystwyth. Mae ei gyhoeddiadau'n cynnwys cyfraniadau i *The Guardian, Nature, New Scientist, Times Higher Education* a'r *International New York Times*.

@John_Gilbey.

**Dde:** *ExoMars*
**Isod Dde:** *Model cwch hwylio awtonomaidd yn yr Adran Cyfrifiadureg*



gwaith y grŵp hwnnw yn cynnwys dadansoddi delweddau meddygol a dehongli gwybodaeth weledol gymhleth – a gyda'i gilydd mae gan y ddau botensial enfawr o ran diagnosteg iechyd pobl.

Mae'r grŵp Roboteg Ddeallus, sy'n un o'r grwpiau roboteg mwyaf adnabyddus yn y Deyrnas Unedig, wrthi'n datblygu ac yn dylunio caledwedd a meddalwedd i'w defnyddio mewn amgylcheddau naturiol – y "byd go iawn". Mae hyn yn cynnwys systemau sydd gyda'i gilydd yn gallu bod yn effeithiol ar draws ystod lawn yr amgylcheddau ar dir a môr. Yn arwyddocaol, mae'r grŵp am ymestyn ei gyrhaeddiad y tu hwnt i'r Ddaear, gan gydweithio ag ymchwilwyr yn Adran Ffiseg y Brifysgol ac yn cyfrannu systemau calibradu ac arbenigedd i brosiect taith ExoMars ESA/Roscosmos sydd i'w lansio yn 2020.

Calon yr adran, ym mhob ystyr, yw'r ystafell goffi – mangre i drafod a lle i chi gael gwir ymdeimlad o amrywiaeth a maint y profiad cyfunol sydd gan y gymuned. Wrth eistedd yma, a gwrando ar sgyrsiau ac iddynt sawl edefyn rhwng arbenigwyr o gefndiroedd a chenhedloedd hollol wahanol, cewch syniad pa mor effeithiol yw Cyfrifiadureg yn

> "…rhyngweithio sylweddol a chynhyrchiol gyda phartneriaid diwydiannol"

Aberystwyth ar gasglu cyd-arbenigedd ac adeiladu arno i gyflawni amcanion cyffredin.

Mae allgymorth academaidd yr adran yn digwydd mewn amryw o ffyrdd. Mae peth ohono yn seiliedig o fewn y proffesiwn ehangach, megis y gynhadledd iOSDevUK sy'n dod â 200 o ddatblygwyr meddalwedd Apple i Aberystwyth o bob cwr o'r byd yn ystod wythnos ym mis Medi bob blwyddyn – gan arwain at gyfnewid anochel ar syniadau a phrofiad. Mae elfennau eraill yr allgymorth, megis sesiynau "Dangoswch a Thrafodwch" gyda'r nos, sy'n aml wedi'u cynnal mewn cydweithrediad â BCS, y sefydliad siartredig ar gyfer TG, yn helpu i ennyn trafodaeth rhwng disgyblaethau a meithrin perthynas ag adrannau eraill. Yn y gymuned ehangach, mae Clwb Roboteg Aberystwyth – sy'n fenter ar y cyd â'r adran Ffiseg – yn tynnu ei aelodaeth o'r ysgolion lleol ac yn helpu i roi ymdeimlad ymarferol i bobl ifanc yn eu harddegau o'r hyn y gellir ei gyflawni mewn cyfrifiadura gwirioneddol ryngweithiol.


Mae gweithio â diwydiant yn greiddiol i lawer o'r portffolio ymchwil, ond mae hefyd yn ymestyn i'r amgylchedd addysgu. Mae nifer o gyrsiau israddedig yn cynnig Blwyddyn mewn Diwydiant, lle mae myfyrwyr yn cystadlu am leoliadau mewn amrywiaeth o gwmnïoedd a sefydliadau sy'n datblygu meddalwedd proffesiynol. Wrth baratoi eu ceisiadau ar gyfer y lleoliadau hyn gyda'n cydweithwyr, gall


> "…amrywiaeth ac ehangder y profiad cyfunol"

myfyrwyr yr ail flwyddyn fynychu digwyddiad penwythnos yng Ngregynog, sef y tŷ hanesyddol a'r lleoliad cynadledda ger y Drenewydd, ac yno cânt eu cyfweld a chael cyngor ar eu CV gan recriwtwyr o'r prif gwmnïoedd TG, sydd mewn sawl achos yn gwmnïoedd byd-eang.

Un elfen drawiadol ar yr ymarfer hwn yw gweld myfyrwyr yng nghanol eu lleoliad yn dychwelyd i roi cyflwyniad i'r fintai nesaf, ar ôl ennill cryn brofiad a sgiliau ychwanegol sylweddol yn y gweithle. Gwefreiddiol yw gweld y myfyrwyr hyn yn cyflwyno eu profiad i'w holynwyr, a'u mentoriaid mewn diwydiant – llawer ohonynt hwythau wedi graddio o Aberystwyth – yn edrych arnynt yn falch, a hyn oll yn dangos pa mor drawsnewidiol yw'r profiad integredig hwn iddynt. Gall hyn, wrth gwrs, helpu i egluro'r cyfraddau cyflogaeth rhagorol i raddedigion Cyfrifiadureg Aberystwyth.

A hithau wedi'i sefydlu yn 1970, mae'r Adran Gyfrifiadureg yn Aberystwyth bellach yn prysur agosáu at ei hanner cant. Yn y cyfnod hwnnw mae wedi creu presenoldeb amrywiol, cynhwysol a chadarn yn y byd academaidd, yn y gymuned ac mewn diwydiant. Mae'r hanner can mlynedd nesaf yn edrych i fod mor gyffrous, mor gyflym ac mor gynhyrchiol â'r diwethaf, wrth i'r byd ddod yn fwyfwy ddibynnol ar ddatblygiadau technolegol.





# Anrhydeddau

Anrhydeddwyd nifer o unigolion gan y Brifysgol yn rhan o'r seremonïau graddio ym mis Gorffennaf 2018.


## CYMRODORION ER ANRHYDEDD




**Athro Ann Sumner**
- hanesydd celf, curadur arddangosfeydd, a chyfarwyddwr amgueddfa



**Bonamy Grimes MBE**
- gwe-fentrwr a chyd-sylfaenydd y wefan cymharu prisiau hedfan Skyscanner



**Euryn Ogwen Williams**
- darlledwr a ffigwr o bwys yn y cyfryngau yng Nghymru



**John Dawes OBE**
- cyn-chwaraewr rygbi rhyngwladol a hyfforddwr rygbi



**Yr Athro Menna Elfyn**
- bardd a dramodydd arobryn



**Ei Anrhydedd y Barnwr Milwyn Jarman QC**
- barnwr blaenllaw




Cyflwynwyd Cymrawd er Anrhydedd i'r diweddar **Athro Meic Stephens** ar 3 Mai 2018 mewn seremoni arbennig yng Nghaerdydd. Yn drist iawn, bu farw'r Athro Stephens ar 3 Gorffennaf 2018.

## DOETHURIAETH ER ANRHYDEDD




**John Thompson**
- entrepreneur yn y byd technoleg a dylunydd meddalwedd.

## GRADD BAGLOR ER ANRHYDEDD MEWN GWYDDONIAETH



**Eric Harries**
- cyn-Reolwr Gorsaf Dân Aberystwyth a drefnodd ac arwain 50 taith ddyngarol i ddwyrain Ewrop i gynorthwyo pobl gyffredin a oedd yn dioddef oherwydd rhyfel.

## GRADD BAGLOR ER ANRHYDEDD MEWN CELFYDDYD



**Sue Jones-Davies**
- actor a chantores, cynghorydd tref a chyn-Faer Aberystwyth.



# Llwyddiannau

## STAFF A MYFYRWYR

Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr yng Ngwobrau UMAber i Ddathlu Staff a Myfyrwyr 2018, gan gynnwys **yr Athro Matthew Jarvis** o'r Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol y dyfarnwyd Darlithydd y Flwyddyn iddo; **Stephen Fearn** o'r Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg a enillodd Staff Cymorth / Gwasanaeth y Flwyddyn; **Dr Berit Bliesemann de Guevara** a'r **Athro Milja Kurki** o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol a enillodd deitl Goruchwyliwr y Flwyddyn (Ôl-radd) a **Dr Simon Payne** o IBERS a gipiodd Goruchwyliwr y Flwyddyn (Israddedig). Mathemateg enillodd Adran y Flwyddyn 2018.

**Yr Athro Ken Booth** o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol – cyflwynwyd Gwobr Cyfraniad Nodedig iddo gan Gymdeithas Astudiaethau Rhyngwladol Prydain (BISA), i gydnabod cyfraniad oes yn hyrwyddo rhagoriaeth ym maes Astudiaethau Rhyngwladol.


**Dr Tudur Davies**, darlithydd yn yr Adran Fathemateg, a enillodd Wobr Goffa Eilir Hedd Morgan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gydnabod ei waith yn hyrwyddo mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Dr Hannah Dee**, uwch ddarlithydd yn yr Adran Gyfrifiadureg – a ddewiswyd i fod yn Oriel Enwogion *Computer Weekly* o'r menywod mwyaf dylanwadol yn y sector technoleg yn y DU. Roedd hi hefyd yn un o'r 11 o fathemategwyr a gwyddonwyr cyfrifiadureg benywaidd blaenllaw i'w cydnabod yng Ngwobrau Gwyddoniaeth i Ferched am Fathemateg a Chyfrifiadureg – sef gwobrau sy'n dathlu menywod mewn gwyddoniaeth, ac yn annog eraill i fentro i fyd gwyddoniaeth a chyrraedd swyddi rheolaeth uwch.

**Ruth Fowler**, Swyddog Cyfathrebu a Chyfle Cyfartal yn yr Adran Adnoddau Dynol, a enwyd yn un o'r 40 o bobl fwyaf dylanwadol LGBT+ yng Nghymru. Roedd Ruth, sy'n cydlynu rhwydwaith lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol staff y Brifysgol, wedi'i henwi yn "seren ddisglair" yn Rhestr Binc *WalesOnline* sy'n dathlu cyfraniadau'r bobl hyn i fywyd LGBT+ yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Yr Athro Michael Hambrey**, Athro Emeritws mewn Rhewlifeg yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, a enillodd Fedal Rhagoriaeth Ymchwil Antarctig SCAR (Pwyllgor Gwyddonol ar Ymchwil Antarctig) 2018.

**Dr Rhianedd Jewell**, Darlithydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn Cymraeg Proffesiynol yn Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd – sydd wedi ennill medal Dillwyn yn y Celfyddydau Creadigol a'r Dyniaethau gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru. Mae ymchwil Dr Jewell ar hyn o bryd yn ymwneud â chyfieithu, llenyddiaeth menywod, a dimensiwn Ewropeaidd llenyddiaeth Cymru.












***O'r brig:*** *yr Athro Ken Booth, Dr Tudur Davies, Dr Hannah Dee, Yr Athro Michael Hambrey, UMAber yn dathlu-adran y flwyddyn, Mathemateg.*









*Hayley Long, Aelodau'r tîm buddugol 2017 NIAB Agronomy, Dr Hywel Ceri Jones, Catrin Dafydd*

Llongyfarchiadau i enillwyr Gwobrau Gŵyl Dewi Prifysgol Aberystwyth 2018, sy'n cydnabod cyfraniad myfyrwyr a staff i'r Gymraeg: Dysgwr Disglair (staff) – Lucy Hodson; Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle – **Branwen Davies;** astudio drwy'r Gymraeg – **Stephanie Davies**; Hyrwyddwr y Gymraeg (myfyriwr) – **Delyn Fritter**.

Tîm myfyrwyr **James Bryan, James Stone** a Howun Lam oedd enillwyr InvEnterPrize 2018 a hynny am greu ap i ffôn symudol o'r enw Clipr a allai chwyldroi'r ffordd y mae pobl yn gwneud apwyntiadau yn y sector gwallt a harddwch. Darllenwch ragor am hyn ar dudalen 15.

Llwyddodd tîm o fyfyrwyr o Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) i guro 13 o dimau prifysgolion a cholegau eraill i godi Cwpan Agronomeg NIAB 2017. Y tîm buddugol oedd y myfyrwyr amaethyddiaeth **James Bradley, David Casebow, Anna Crockford, Rosie Francis a Hannah Hinchliffe.**

Daeth casgliad o draethodau am golli clyw gan fyfyriwr ysgrifennu creadigol yn Aber yn fuddugol yng ngwobr flynyddol y cylchgrawn llenyddol *New Welsh Review*. Mae *Fiction as a Hearing Aid* gan **Ed Garland** yn ystyried yn fanwl sut y gall llenyddiaeth gynnig cysur ac eglurder i bobl sydd â nam ar eu clyw.

## CYN-FYFYRWYR

Dyfarnodd y Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Addysg Ryngwladol y Wobr Ryngwladol am Weledigaeth ac Arweinyddiaeth i'r Cymrawd er Anrhydedd **Dr Hywel Ceri Jones**.

Enillodd **Gruffudd Owen** (Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, 2007) Gadair yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn 2018, a chyn-fyfyriwr arall **Catrin Dafydd** (Cymraeg, 2003) y Goron yn yr Eisteddfod honno.

Roedd ffilm gan **Meleri Morgan** (Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, 2017) yn un o bum enillydd yng Ngwobrau Teledu Myfyrwyr 2018 y Gymdeithas Deledu Frenhinol yng Nghymru. Ei ffilm *Dwy Chwaer a Brawd* oedd enillydd y categori Ffeithiol.

Llongyfarchiadau i **Cennydd Jones** (Amaethyddiaeth, 2018) ar ennill y teitl Aelod Hŷn y Flwyddyn 2018 Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru.

Yr awdures lwyddiannus, **Hayley Long** (Llenyddiaeth Saesneg, 1992) oedd enillydd gwobr Tir na n-Og 2018 am nofel Saesneg i'r arddegau gyda'i nofel *The Nearest Faraway Place.* Trefnir y wobr gan Gyngor Llyfrau Cymru i ddathlu'r nofel Saesneg orau i blant ac iddi gefndir Cymreig dilys.

Derbyniodd **Dr Jittipat Poonkham,** a raddiodd â doethuriaeth o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, y Wobr Addysgol am Ragoriaeth yn y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol yn Seremoni Wobrwyo 2018 y Gymdeithas Eingl-Thai. Mae'r gwobrau yn dathlu dawn eithriadol myfyrwyr doethur o wlad Thai sy'n astudio ym mhrifysgolion y Deyrnas Unedig.

# Penodiadau

**Yr Athro Tim Woods -** Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr

**Yr Athro Neil Glasser -** Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran Gwyddorau Daear a Bywyd

**Yr Athro Qiang Shen -** Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol

**Dr Anwen Jones -** Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol

**Dafydd Rhys -** Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

**Robin Halley -** Cyfarwyddwr Marchnata a Recriwtio

**Yr Athro John Goddard** - Pennaeth Ysgol Fusnes Aberystwyth

**Dr Thomas Jansen** - Pennaeth yr Adran Gyfrifiadureg

**Dr Anoush Simon -** Pennaeth Rheoli Gwybodaeth, Llyfrgelloedd ac Archifau

**Dr Guy Baron -** Pennaeth yr Adran Ieithoedd Modern

**Yr Athro Phillipp Schofield** - Pennaeth yr Adran Hanes a Hanes Cymru

**Steve Walsh** Pennaeth Adran Cynllunio

# Er Cof

Gyda thristwch mawr yr ydym yn cofnodi golli cyn-fyfyrwyr, cymrodyr ac aelodau staff, yr hysbyswyd ni am eu marwolaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theuluoedd a chyfeillion y sawl a restrir yma.

**Aelod o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr*

## CYMRODYR

**Jones,** Yr Athro Ieuan Gwynedd, bu farw Mehefin 2018*

**Stephens,** Yr Athro Emeritws Meic (Ffrangeg, 1961), bu farw Gorffennaf 2018

## STAFF

**Bateman**, Yr Athro David Ian, bu farw Mawrth 2018*

**Bowen,** Yr Athro Emeritws D. J, bu farw Awst 2017

**Green,** Dr David A, bu farw Awst 2018

**John,** Geraint, bu farw Ionawr 2018

**Lavaro,** Mrs Non Elizabeth, bu farw Ebrill 2018

**Rogers,** Yr Athro Lyndon John, bu farw Mai 2018

## CYN-FYFYRWYR A CHEFNOGWYR

**Archer,** Mr Douglas Milton (Sŵoleg), bu farw Gorffennaf 2018*

**Barton,** Yr Athro Simon Fraser (Hanes), bu farw Rhagfyr 2017*

**Bevan,** Mr Philip Keith (Mathemateg Bur a Mathemateg Gymhwysol), bu farw Awst 2017

**Bromley,** Dr Alan Victor (Daeareg), bu farw Hydref 2018

**Brown,** Yr Athro Eric Herbert (Daearyddiaeth), bu farw Ionawr 2018

**Davies,** Mr David Cyril (Daearyddiaeth ac Anthropoleg), bu farw Rhagfyr 2017

**Davies,** Mrs Ruth Elizabeth (Daearyddiaeth), bu farw Ebrill 2018*

**Davies,** Mr Peter E, bu farw Rhagfyr 2017*

**Edwards,** Mrs Carole Linda (Marchnata Bwyd Amaethyddol), bu farw Mai 2018

**Grooms,** Dr Chris, bu farw Ebrill 2018*

**Guppy,** Mr Tony, bu farw Ionawr 2018

**Harris,** Mr Melville, bu farw Gorffennaf 2018*

**Housley,** Mr Lance Dickinson (Saesneg), bu farw Ebrill 2018

**Hughes,** Mr Gwyn (Y Gyfraith), bu farw 2018*

**Jones,** Mr Emrys Wynn (Daearyddiaeth a Daeareg (Gwyddoniaeth), bu farw Ebrill 2018*

**Jones,** Mr Adrian Wynn, bu farw Mai 2018*

**Jones,** Mr Richie, bu farw Chwefror 2018

**Lewis,** Mr Gareth, bu farw Gorffennaf 2018*

**Long,** Mr Peter David (Gwleidyddiaeth Rhyngwladol a hanes), bu farw Ionawr 2018

**Martin,** Mrs Iris Mary (Cemeg), bu farw Ebrill 2018

**Matson,** Mr Ian David Neill (Biocemeg), bu farw Rhagfyr 2017

**Morgan,** Yr Athro Philip Graeme (Bioleg Amgylcheddol), bu farw Ionawr 2018*

**Osborne,** Mr Stuart Anthony (Addysg), bu farw Medi 2017

**Pring,** Ms Gillian Floret (Celf Weledol a Saesneg), bu farw Mehefin 2018

**Pritchard,** Mr Thomas Emyr, bu farw Ionawr 2018

**Ramsbottom,** Mr John Edmund (Botaneg Amaethyddol), bu farw Rhagfyr 2017*

**Rawlins,** Mrs Josephine Parry (Daearyddiaeth), bu farw Ionawr 2018*

**Simpson,** Mr Tony (Llyfrgellyddiaeth), bu farw Hydref 2018

**Soanes,** Mrs Concordia Anne (Ffrangeg ac Almaeneg), bu farw Rhagfyr 2017

**Thomas,** Mr Haydn H (Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg), bu farw Mawrth 2018*

**Treharne,** Mrs Iola Elaine Gwynne (Hanes), bu farw Tachwedd 2017*

**Vanston,** Mrs Marjorie Edith (Ffrangeg), bu farw Rhagfyr 2017*

**Watts,** Ms Marion Enid Elizabeth (Hanes), bu farw 2018

**Williams,** Dr Haydn Murray, bu farw Hydref 2018*

**Wray,** Mr Barry Leonard David (Economeg), bu farw Medi 2017

Os ydych chi'n gwybod bod ein gwybodaeth yn anghywir, neu os hoffech roi gwybod am farwolaeth un o raddedigion Prifysgol Aberystwyth, rhowch wybod i ni trwy anfon e-bost at: alumni@aber.ac.uk

# Atgofion RAG Memories

Roedd myfyrwyr Aber yn enwog ledled Prydain am godi symiau anferth i elusennau lleol a chymdeithasol yn ystod yr wythnos RAG. Yn y 1970au a'r 1980au, Aber oedd yn dal y record am y cyfanswm mwyaf o arian a godwyd y pen o blith holl brifysgolion Prydain. Mae'r awydd hwnnw i wella ar berfformiad y flwyddyn flaenorol wedi creu atgofion melys i lawer o gyn-fyfyrwyr.

Isod, ceir blas o'r eitemau a gedwir yn archifau'r Brifysgol.Rydym bob amser yn cadw llygaid allan am ragor. Ymunwch â'r sgwrs a rhannu'ch profiadau â ni:

Aber students were known throughout the UK for their ability to raise huge sums of money for local and national charities during RAG week. In the 1970's and 80's Aber held the record for collecting the most money per head than any other UK University. The ambition to surpass previous years created unforgettable memories for many alumni.


Below is a taste of the items held in the University Archives. We are always on the look-out for more - join the conversation and share your memories with us:

@AberUniArchives
archives@aber.ac.uk
Aberystwyth Alumni | Cyn-fyfyrwyr Aber

## 1920




RAG 1925




Keezle Wacca 1929

*Ystyrir mae hwn yw cylchgrawn RAG cyntaf Aber* | *Thought to be Aber's first "real full blown, live RAG magazine"*







Cychgrawn RAG Magazine
Keezlewacka 1957 & Oats 1973

*Pryd y cafodd ei newid o 'Keezle Wacka' i 'Oats'?* | *When did it change from 'Keezle Wacka' to 'Oats'?*

## 1940




Achosion Llys, 1948 | Law Trials, 1948

## 1950



Fflôt RAG Cymdeithas India, 1952
Indian Society RAG float, 1952



*Gornest cart geido, 1958-59*
*"Soapbox derby", 1958-59*



*Cystadleuaeth Bwyta | Eating competition*

## 1960




*Fflôt RAG Cymdeithas Ffiseg*
*Physics Society RAG float, 1964*

## 1970



*Fflôt Knave of Hearts (1971-74)*
*Knave of Hearts float (1971-74)*



*Digwyddiad 'gwthio'r Mini' 1977*
*Push the Mini event, 1977*

## 1980



*Ras tŵr i dŵr | Tower to tower race*



*Crys-t 'Oats' y tu allan i'r Undeb, 1986*
*Oats t-shirt outside the Union, 1986*